# Astudiaeth Enghreifftiol Cyngor Cymuned Cwmbrân: Tasglu

## Cip cyflym

**Mae Tasglu Cyngor Cymuned Cwmbrân yn cynnig help ymarferol, cost isel i bobl leol trwy wasanaeth addurno ysgafn yn y gaeaf a gwasanaeth garddio ysgafn yn yr haf.**

**Trwy ganolbwyntio ar gefnogi pobl hŷn ac anabl, mae'r gwasanaeth nid yn unig yn gwella amodau byw ond mae hefyd yn cysylltu unigolion bregus gyda chymorth ehangach.**






## Yr Her:

Mae costau byw yn codi wedi golygu fod llawer o deuluoedd—rhai ar incwm penodedig neu gyfyngedig yn arbennig—yn ei chael yn anodd fforddio gwasanaethau sylfaenol fel gofalu am y cartref a'r ardd

Ar gyfer pobl hŷn a'r rhai sy'n byw gydag anabledd, gall hynny olygu byw mewn amgylchiadau sy'n gwaethygu ac sy'n cael effaith negyddol ar iechyd, llesiant, a diogelwch. Nid yw cael cwmnïau preifat i wneud y gwaith yn fforddiadwy i lawer o bobl.

Mae'r Tasglu yn ymateb i'r her hon trwy ddarparu help fforddiadwy o safon uchel sy'n galluogi pobl i ofalu am eu cartrefi a'u llecynnau awyr agored gydag urddas.

Trwy gynnig rhagor o ostyngiadau i aelwydydd sy'n cynnwys aelodau anabl, mae Cyngor Cymuned Cwmbrân yn cydnabod effeithiau ehangach anabledd a'r pwysau ariannol ychwanegol y mae'r teuluoedd hyn yn eu hwynebu.

## Ffeithiau'r Cyngor: EFFAITH

- Mae trigolion yn talu £5.00 yr awr fesul aelod o staff
- Dros 60 o dasgau addurno a 75 o dasgau garddio yn 2024/25 a dim ond 3 oedd ddim yn gymwys i gael y gostyngiad oedd ar gael
- Mae'r gost i'r cyngor yn cael ei chynnwys yng nghyflogau staff
  Cynhyrchodd y prosiect £4000 o incwm y llyneddr



# Fideo Astudiaeth Enghreifftiol y Tasglu



> Beth alla i ddweud am y Tasglu?
> Da iawn! All Dave & Mike ddim eu canmol ddigon.
> Maen nhw'n mynd y filltir ychwanegol i helpu.
> Rwyn gobeithio y bydd y gwasanaethau yma'n parhau, mae mor ddefnyddiol i bobl fel fi.
>
> **Defnyddiwr Gwasanaethau'r Tasglu**

## Diogelu

Mae'r gwasanaethau rheolaidd, wyneb yn wyneb hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i staff ddod o hyd i arwyddion o esgelustod, unigrwydd cymdeithasol, neu bryderon eraill all awgrymu fod angen mwy o gefnogaeth. Trwy feithrin perthnasoedd cryf gyda phobl leol a gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol, mae'n golygu y gellir gwneud atgyfeiriadau amserol a phriodol, a sicrhau bod pobl yn cael yr help maen nhw ei angen i gynnal eu llesiant a'u hannibyniaeth.

## Cyllid & Grymoedd

Mae ar bob cyngor cymuned yng Nghymru angen pwerau cyfreithiol penodol sy'n eu galluogi i ddarparu gwahanol wasanaethau a chefnogaeth i'r cymunedau lleol.
Mae'r pwerau hyn, a roddir trwy ddeddfwriaeth, yn galluogi cynghorau i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau a chynlluniau i wella lles ac ansawdd bywyd eu preswylwyr. Mae bod yn gymwys i gael y grym cymhwysedd cyffredinol (GPOC) yn rhoi mwy o ryddid i gynghorau weithredu. Gall grymoedd a chyfiawnhadau amrywio - os na chafodd cymhwysedd ar gyfer GPOC ei gadarnhau, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw a gofyn am gyngor ar gyfreithlondeb y cynigion er mwyn osgoi gweithredu y tu hwnt i'w grymoedd.

I gael cyngor a chanllawiau, mae croeso i gynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru. gweinydd@unllaiscymru.cymru








## Y Dyfodol

**"Fel Cynghorwyr mae angen inni dorchi ein llewys oherwydd mae pethau'n galed – ond rydyn ni'n rhoi pethau heibio ar gyfer diwrnod glawog pan mae hi mewn gwirionedd yn ei harllwys hi'n barod; mae angen inni fod allan ynghanol y gymuned"**
**Cyng Chris Morgan**

**Eisiau Gwybod Mwy?**
**Am ragor o wybodaeth ar brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales    https://bit.ly/3KYHftK    Un Llais Cymru